


# Newyddion ABER

## Mwy nag erioed mewn swyddi da

Cafwyd newyddion da am gyflogadwyedd gwta dair wythnos cyn Graddio. Dengys y ffigurau diweddaraf bod 95.4% o raddedigion Prifysgol Aberystwyth o'r DU/UE naill ai mewn gwaith neu astudiaethau pellach chwe mis ar ôl graddio.

Mae'r canlyniadau, a gyhoeddwyd ddiwedd mis Mehefin fel rhan o arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch blynyddol yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, yn gosod Aberystwyth ar y blaen i gyfartaledd y sector yn gyffredinol.

Seliwyd ffigurau HESA ar fyfyrwyr a gwblhaodd gradd gyntaf amser llawn yn 2016. Dengys y data hefyd bod 75.6% o'r graddedigion hynny mewn swyddi o safon broffesiynol neu'n parhau gyda'u hastudiaethau ar safon raddedig.

Mae unarddeg o adrannau wedi perfformio yn well na chyfartaledd y sector o ran myfyrwyr sydd naill ai mewn gwaith neu astudiaethau pellach, gyda 100% o raddedigion Celf, Addysg, Y Gyfraith a'r Gymraeg yn 2016 mewn gwaith neu astudiaethau pellach chwe mis ar ôl cwblhau eu cwrs, a 98.5% o raddedigion Cyfrifiadureg 2016.

Mae'r canlyniadau yn adlewyrchu ffocws ac ymrwymiad parhaus y Brifysgol i baratoi ein myfyrwyr ar gyfer y gweithle.


Ni ddaw'r ymrwymiad hwn i ben pan fydd ein myfyrwyr yn graddio. Mae cefnogaeth Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol yn parhau gyda nifer o wasanaethau yn cael eu cynnig o bell, gan gynnwys ymgynghoriadau gyrfaoedd un i un, gwirio cais/CV, a mynediad at y gronfa ddata swyddi gwag i raddedigion.

Gall graddedigion sy'n awyddus i wireddu syniadau busnes fanteisio ar raglen lawn o ddigwyddiadau arloesedd sy'n cael eu trefnu gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd fel rhan o raglen AberPreneurs, sydd yn cynnwys y gystadleuaeth syniadau myfyrwyr poblogaidd, InventerPrize.

Ac, ar gyfer y rhai sy'n chwilio am gyngor gan gylch ehangach, mae'r llwyfan cyffrous eFentora yn caniatáu i gyn-fyfyrwyr Aber gynnig mentora ac arweiniad i fyfyrwyr presennol a graddedigion ifanc.

2 Gwirioni ar flodau gwyllt

7 Graddio

8 Yn ogystal â'r swydd bob dydd

10 Ymchwyl Iechyd a Lles

14 Ymchwil: Ar Drywydd Olion y Gorffennol


Cyhoeddir *Newyddion Aber* gan y **Tîm Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus,** Prifysgol Aberystwyth.
**Ffôn:** 01970 622578
**E-bost** cyfathrebu@aber.ac.uk.
Bydd y rhifyn nesaf o *Newyddion Aber* ar gael ym mis **Hydref 2017**.
Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw **Dydd Iau 17 Awst**.

# Gwirioni ar flodau gwyllt

Mae'r gwely blodau gwyllt sy'n rhedeg islaw Adeilad Hugh Owen wedi ennyn cryn dipyn o sylw ac adborth cadarnhaol oddi wrth fyfyrwyr, staff ac ymwelwyr. Bu *Newyddion Aber* yn siarad â Paul Evans, Rheolwr Tiroedd yn Adran Ystadau'r Brifysgol, am sut daeth y syniad i fod, a'r broses o blannu'r gwely.





**Sut cawsoch chi'r syniad am wely blodau gwyllt?**

Roeddem yn cael problemau oherwydd bod y llwyni ar brif ffordd Campws Penglais yn gorgyffwrdd â'r llwybr ac yn rhwystro'r goleuadau ar wal adeilad Hugh Owen rhag goleuo'r llwybr yn y nos.



Ar y pryd, roedd gan yr Adran Ystadau brosiect i osod goleuadau LED rhad-ar-ynni newydd yn lle'r hen oleuadau allanol, felly penderfynwyd codi'r llwyni ar waelod y gwely fel na fyddai angen tocio'r gwely yn barhaus, ac er mwyn gosod goleuadau stryd newydd.

Roeddem eisoes wedi plannu dwy ardal ar bymtheg o flodau gwyllt ar Gampws Penglais a phenderfynwyd gwneud yr un peth yn yr ardal hon, gan mai unwaith bob hydref yn unig y byddai angen ei thocio a thorri'r gwair, ar ôl y plannu cychwynnol.

Gan fod hon yn un o ardaloedd amlycaf y campws, penderfynwyd defnyddio tywarch blodau gwyllt, nad oeddem wedi ei ddefnyddio o'r blaen, gan y byddai'n cael effaith yn fwy buan ac yn fwy dibynadwy na phlannu hadau.

Tua'r un adeg, euthum i Gynhadledd Swyddogion Garddwriaethol Prifysgolion ac roedd cwmni bylbiau o'r Iseldiroedd yno yn hysbysebu eu gwahanol fathau o fylbiau. Yr hyn a apeliodd ataf i oedd y cymysgedd o flodau a fyddai'n blodeuo ar ôl ei gilydd a gwahanol fylbiau yn blodeuo ar wahanol adegau, gan ddarparu lliw a diddordeb cyson am dri neu bedwar mis.

Felly, penderfynwyd plannu'r bylbiau o dan y tywarch, gan gyfuno manteision bylbiau'r gwanwyn sy'n blodeuo'n gynnar â'r blodau gwyllt sy'n blodeuo'n hwyrach.



**Sut aethoch chi ati i baratoi'r tir a phannu'r gwelyau blodau?**

Ar ôl clirio'r llwyni, fe wnaeth peiriant palu godi'r gwreiddiau a rhyddhau'r pridd ar yr un pryd.

Yna, aeth un o staff Tiroedd ati i daflu'r bwcedaid cyntaf o'r 30,000 o fylbiau ar y gwely ond, er mawr ofid iddo, rholiodd pob un o'r bylbiau, heblaw dau, i lawr i'r llwybr!

Edrychom ar ein gilydd a dweud, "mae hyn yn mynd i gymryd amser", ond gyda thechneg wahanol a thipyn o ddyfalbarhad, fe wnaethom gynnydd da.

Gosododd y peiriant palu haenen denau o bridd dros y bylbiau ac wythnos yn ddiweddarach gosodwyd y tywarch blodau gwyllt drosti. Gadawyd darn hirgul ar waelod y gwely a gosod tywarch o wair arferol arno, er mwyn gallu torri'r gwair sydd agosaf at y llwybr.

Rhoddwyd digon o ddŵr dros y cyfan a, gydag ychydig o help cawodydd yr hydref, dyna ni!

**Beth yw manteision y gwelyau blodau?**
Un o'r llu o fanteision sydd wedi deillio o'r prosiect yw gwella bioamrywiaeth. Mae'n darparu neithdar cynnar i beillwyr (nifer ohonynt yn dirywio) o'r chwe amrywiaeth gwahanol o fylbiau gwanwyn cynnar, ac yn ddiweddarach bydd y 35 math o flodau gwyllt cynhenid a'r 15 math o flodau lluosflwydd anghynhenid yn estyn y tymor hyd at ddiwedd yr hydref.

Mae'n arbed ar gostau llafur, mae'n gyfeillgar i'r amgylchedd ac mae'n darparu tymor hir o liwiau a diddordeb.

**Beth fu ymateb ymwelwyr â'r campws?**
Mae'r adborth oddi wrth staff, myfyrwyr ac ymwelwyr wedi bod yn ardderchog, yn cynnwys sylwadau canmoliaethus, negeseuon e-bost, a phobl yn tynnu lluniau'n gyson. Dwi ddim yn meddwl bod diwrnod wedi mynd heibio heb i rywun wneud sylw amdano.

Mae'n edrych llawer iawn gwell nag oeddwn wedi dychmygu, yn enwedig ar ddechrau'r flwyddyn pan oedd yn newid lliw bron bob wythnos.

Gan ei fod mewn lle mor amlwg, roedd hi'n dipyn o ryddhad i mi, yn ogystal â boddhad, fod y gwely blodau gwyllt bellach yn edrych cystal!

## Colofn yr Is-Ganghellor



Yn fy ngholofn gyntaf ar gyfer Newyddion Aber, soniais am yr arfer hwnnw o fwrw barn ar arweinyddion ar sail eu 100 diwrnod cyntaf wrth y llyw. Cyrhaeddais y garreg filltir honno ar 11 Gorffennaf ac rwyf wedi dysgu llawer yn ystod fy nghyfnod byr fel Is-Ganghellor ym Mhrifysgol Aberystwyth. Un o'r pethau sydd wedi rhoi'r boddhad mwyaf imi ers cyrraedd y gornel fach arbennig hon o Gymru yw cyfarfod myfyrwyr a staff, a dod i wybod mwy am y gwaith ymchwil hynod sy'n cael ei wneud gan ein cymuned academaidd.

Gadewch i mi roi blas i chi o fy ymweliadau o amgylch yr Athrofeydd. Rwyf wedi gweld model o'r crwydryn ExoMars yn teithio ar draws tir sy'n efelychu'r blaned Mawrth yn ein hadeilad Gwyddorau Ffisegol. Rwyf wedi ymweld â meysydd Pwllpeiran lle mae'r cnydau a dyfwn yn cynnig atebion cynaliadwy i ffermwyr ledled y byd sy'n wynebu sychder, llifogydd a heriau eraill. Rwyf wedi bod yn clywed am gynlluniau cydweithredol hynod ddiddorol i integreiddio treftadaeth lenyddol a geomorffoleg yng Nghymru'r Oesoedd Canol a'r cyfnod modern cynnar.

Mae ansawdd ein gofod addysgu ar draws y Brifysgol ac yn bwysicach efallai, rhagoriaeth ein haddysgu wedi creu argraff arnaf hefyd. Roedd y Gynhadledd Dysgu ac Addysgu ar gyfer staff yn ddiweddar yn llwyfan i rai o'r technegau arloesol a ddefnyddir gan ein darlithwyr i ysbrydoli natur chwilfrydig a chreadigol ein myfyrwyr. Defnyddio Lego, er enghraifft, i egluro cysyniadau cymhleth mewn cyfrifiadureg neu realiti rhithwir i gyfoethogi profiad ein myfyrwyr yn y dosbarth.

Yn ystod y misoedd diwethaf, rwyf wedi dod yn ymwelydd cyson â theatr, sinema a Neuadd Fawr Canolfan y Celfyddydau. Cefais y fraint annisgwyl o chwarae ar y llwyfan mewn cerddorfa o gerddorion Cymreig adnabyddus (Catrin Finch a Shân Cothi yn eu plith). Dylwn nodi fan hyn mai cyfrannu ar ffurf tapio'r tambwrîn wnes i. A hepgor fy chwarae persain, roedd hi'n noson a amlygodd maint y dalent eithriadol sydd gennym yn lleol, amlochredd Canolfan y Celfyddydau, a'r berthynas agos rhwng y dref a'r Brifysgol.

Nid oes amheuaeth bod gennym nifer o gryfderau fel Prifysgol ond bod rhai meysydd lle mae'n rhaid i ni adeiladu ar lwyddiannau presennol a gweithio gyda'n gilydd i wneud y sefydliad hanesyddol hwn hyd yn oed yn fwy dyfeisgar a gwydn. Rydym oll yn ymwybodol o'r heriau sydd o'n blaenau ac awn ymlaen â chamau gofalus a threfnus, â rhagoriaeth yn greiddiol i bob dim. Gallwn ddefnyddio dadansoddiad ac argymhellion Dartlet i fireinio'r hyn sy'n ein gwneud yn unigryw a'r hyn sy'n denu pobl atom. Gallwn hefyd ddefnyddio'r misoedd nesaf i lunio ein Cynllun Strategol newydd ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn arwain at ein pen-blwydd yn 150 oed.

Edrychaf ymlaen at rannu fy Wythnos Raddio cyntaf gyda chi ac at fy 100 diwrnod nesaf yn y Brifysgol ysbrydoledig hon.

**Yr Athro Elizabeth Treasure**



## Penodi'r Arglwydd Thomas o Gwmgiedd yn Ganghellor

Mae'r Gwir Anrhydeddus Arglwydd Thomas o Gwmgiedd wedi ei benodi yn Ganghellor nesaf Prifysgol Aberystwyth.

Bydd swyddogaeth yr Arglwydd Thomas yn dechrau ym mis Ionawr 2018 ac fe fydd yn olynu'r Canghellor presennol Syr Emyr Jones Parry sy'n dod i ddiwedd ei gyfnod ym mis Rhagfyr 2017 ar ôl deng mlynedd o wasanaeth.

Ar hyn o bryd, mae'r Arglwydd Thomas yn Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr, ac yn Llywydd Llysoedd Cymru a Lloegr, ond bydd yn ymddeol o'r farnwriaeth ar 1 Hydref 2017.

Fe'i gwnaed yn Gymrawd Anrhydeddus Prifysgol Aberystwyth yn 2002 ac mae'n Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Mae rôl anrhydeddus y Canghellor yn canolbwyntio ar ddyletswyddau llysgenhadol a seremonïol, gan gynnwys llywyddu dros seremonïau graddio blynyddol y Brifysgol.

Ar hyn o bryd, mae Syr Emyr Jones Parry yn Ganghellor ac yn Gadeirydd Cyngor Prifysgol Aberystwyth. Mae'r ddwy rôl bellach yn cael eu rhannu ac mae proses ar wahân wedi dechrau i recriwtio Cadeirydd newydd y Cyngor ar gyfer mis Ionawr 2018.

## Y Gydberthynas rhwng y Gyfraith a'r Cyfryngau



Ym mis Mawrth, teithiodd ymchwilwyr o brifysgolion mor bell i ffwrdd â Chaeredin i ymuno ag uwchraddedigion ymchwil o Ysgol y Gyfraith, Aberystwyth yn eu cynhadledd i uwchraddedigion, '*The Interwoven Relationship of Law and Media*'.

Cwmpaswyd nifer o feysydd yng nghyflwyniadau'r uwchraddedigion, gan gynnwys cyfraith eiddo a'r cyfryngau, gwrachod Pendleton, troseddu gan blant yn y cyfryngau, hunanamddiffyn rhyngwladol, a thrafodaeth ynglŷn â'r ffordd y byddai Lili Elbe (The Danish Girl) yn cael ei thrin o dan ein cyfreithiau ni heddiw.

Ymhlith y cyflwyniadau gwadd oedd un gan Dr Uta Kohl o Ysgol y Gyfraith, Aberystwyth ar 'Ffug Newyddion', a sbardunodd drafodaeth a dadleuon ynglŷn â defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer newyddion a sut mae'r dulliau o ledaenu gwybodaeth wedi newid; a chyflwyniad o'r enw 'The Sense of Justice' gan Dr Stefan Machura o Brifysgol Bangor, yn canolbwyntio ar y ffordd mae cyfiawnder dosrannol a gweithdrefnol yn cael eu portreadu mewn ffilmiau.

Achlysur a arweinir gan fyfyrwyr yw'r Gynhadledd i Uwchraddedigion yn Ysgol y Gyfraith, Aberystwyth ar nod yw ceisio cyfoethogi ymchwil, addysgu a thrafodaeth yn ogystal â chreu cyfle i rwydweithio mewn amglchedd cyfeillgar a chefnogol.

## Cymrodoriaeth Walters Kundert

Llongyfarchiadau i Dr Arwyn Edwards, Darlithydd Gwyddorau Biolegol yn IBERS, ar ei ddyfarnu'n enillydd Cymrodoriaeth Walters Kundert 2017 gan y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol (gyda Sefydliad Daearyddwyr Prydain).

Lansiwyd rhaglen grantiau Walters Kundert ar ddechrau 2017. Dyfernir Cymrodoriaeth Walters Kundert a'r tri grant Walters Kundert ar gyfer uwchraddedigion yn flynyddol.

Mae'r Gymrodoriaeth yn darparu £10,000 i gefnogi gwaith ymchwil maes mewn daearyddiaeth ffisegol yn yr Arctig a/neu ardaloedd mynyddoedd uchel, gan flaenoriaethu astudiaethau maes sy'n gwella'r ddealltwriaeth o newid amgylcheddol ddoe a heddiw.

Cyfeiriodd Arwyn at y fraint o dderbyn y Gymrodoriaeth fel "anrhydedd ryfeddol".



Credyd: Dr Anne Jungblut, Yr Amgueddfa Hanes Naturiol

# 40 mlynedd yn ddiweddarach, newid gwedd Llyfrgell Hugh Owen

## Ar hyn o bryd, mae Gwasanaethau Gwybodaeth wrthi'n adnewyddu Llawr D, sef llawr gwaelod, Llyfrgell Hugh Owen ar Gampws Penglais.



Cafwyd adborth gan fyfyrwyr yn nodi'r angen i gynyddu, diweddaru a gwella mannau astudio addas yn y llyfrgell, a bu GG yn gweithio gyda phenseiri o gwmni DarntonB3 i ddatblygu cynllun uwchraddio sy'n cyflawni'r gofynion hyn.

Bydd cynllun Llawr D yn cael ei newid er mwyn ei gwneud yn fwy hwylus i'r myfyrwyr ddefnyddio'r adnoddau a'r gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys:

- Symud y fynedfa i wynebu'r piazza o flaen Canolfan y Celfyddydau
- Symud y ddesg ymholiadau
- Creu dwy ystafell newydd ar gyfer astudio mewn grwpiau
- Creu ardal ar gyfer peiriannau gwerthu diodydd a byrbrydau
- Creu rhagor o ofod ar gyfer cyfrifiaduron ac astudio
- Gwella'r goleuo, y gwresogi a'r awyru
- Creu toiledau niwtral o ran y rhywiau



Llyfrgell Hugh Owen ym 1976, ac roedd y gwasanaethau archebu a benthyca llyfrau ar Lawr E.



Enghreifftiau o'r lliwiau a'r patrymau a fydd yn addurno Llawr D ar ei newydd wedd.

Yn olaf, bydd y lle'n cael ei ailaddurno a chelfi newydd yn cael eu gosod, a fydd yn fwy cydnaws â gofynion defnyddwyr cyfoes.

Wrth i'r gwaith fynd rhagddo, symudwyd gwasanaethau Llawr D i Lawr E, er mwyn ceisio amharu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr.


Caiff Llawr D ar ei newydd wedd ei agor ym mis Ionawr 2018.

Yn y cyfamser, os hoffech weld hynt y datblygiadau, gallwch ddarllen y blog: http://wordpress.aber.ac.uk/librefurb/









*Credyd: 'Bridgend Office Furniture'*

# Golwg ar…
# Y Tîm Graddio




Dathlu llwyddiant a chyflawniadau ein myfyrwyr a wnawn yn ystod y cyfnod graddio. Mae'n amser prysur, ond eto'n amser llawn bwrlwm sy'n rhoi llawer o foddhad i'r Tîm Graddio; mae'r Tîm yn gweithio'n galed yn y cyfnod cyn yr Wythnos Raddio ac ar gael drwy gydol yr wythnos i wneud yn siŵr fod y seremonïau yn rhedeg mor esmwyth â phosibl.

Bu *Newyddion Aber* yn siarad â'r Tîm Graddio am yr hyn sydd ynghlwm â threfnu uchafbwynt calendr y Brifysgol.

**Pwy sydd yn y tîm?**
Mae'r tîm Graddio yn cynnwys staff nifer o adrannau'r Brifysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith paratoi cyn yr wythnos yn cael ei gwneud gan staff yn Swyddfa'r Is-Ganghellor, y Swyddfa Ansawdd Academaidd a Chofnodion, Canolfan y Celfyddydau, Gwasanaethau Campws a Masnachol, Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, y Tîm Cyfathrebu a Dylunio ac Argraffu.

Yn ystod yr wythnos Raddio ei hun, mae gwirfoddolwyr o bob rhan o'r Brifysgol (o'r adrannau academaidd a'r adrannau gwasanaethau proffesiynol) yn dod at ei gilydd ac yn gwisgo crys-T porffor y Tîm Graddio.

**Pa fath o waith sy'n cael ei wneud cyn yr Wythnos Raddio?**
Mae'n debyg i drefnu priodas dros bedwar diwrnod! Cynllunio'r seremoni, derbyniadau, parcio, blodau, areithiau, tocynnau, trefn eistedd a llawer mwy…!

**Disgrifiwch ddiwrnod arferol yn ystod yr Wythnos Raddio**
Mae'n brysur! Bydd y Tîm Graddio yn dechrau cael pethau'n barod o tua 8 yb ar gyfer cofrestru ar-y-dydd ac agor y dderbynfa. Mae myfyrwyr yn frwd iawn ac yn cyrraedd yn gynnar felly byddwn ninnau yno'n gynnar ac yn barod i ddechrau arni gyda gwên a phinnau cau.

Yna, bydd angen gwirio'r seddi yn yr ymarferion a'r seremonïau, hebrwng myfyrwyr i mewn ac allan, cyfweliadau gyda Chymrodyr Anrhydeddus a myfyrwyr.

Byddwn hefyd yn treulio llawer o amser yn rhoi cyfarwyddiadau ac yn cyfeirio pobl i lefydd ac, yn gyffredinol, yn ceisio gwneud yn siŵr fod pawb yn cyrraedd y mannau cywir ar yr adeg gywir ac yn mwynhau'r diwrnod.

Ond mae gennym rota, felly fydd pawb ddim yn gwneud pob dim bob diwrnod!

**Beth yw'r uchafbwyntiau?**
Mae graddio yn achlysur hapus iawn. Mae'n wych gweld cyffro'r holl raddedigion gyda'u ffrindiau a'u teuluoedd yn dathlu'r hyn maen nhw wedi'i gyflawni - 'does dim byd tebyg iddo!



**Beth yw'r isafbwyntiau?**
Mae'n anochel fod ambell anhawster yn codi nawr ac yn y man - 'dyw pob dim ddim wastad yn mynd yn ôl y drefn neu gall problemau godi nad oedd posib eu rhagweld. Gall fod yn straen weithiau, ond mae'n ychwanegu at y teimlad o falchder unwaith bydd y broblem wedi ei datrys.

**Sut rydych chi'n teimlo erbyn diwedd yr Wythnos Raddio?**
Wedi blino, ond wrth ein bodd. Byddwn yn cymryd ychydig fisoedd i ddod dros y profiad cyn dechrau cynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf!






# Trefn y Seremonïau ar gyfer Graddio 2017

| Dydd Mawrth 18 Gorffennaf 2017 | |
|---|---|
| **SEREMONI 1: 11.00yb**<br>Addysg<br>Celf<br>Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol | **SEREMONI 2: 3.00yp**<br>Busnes<br>Ieithoedd Modern<br>Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd |
| **Dydd Mercher 19 Gorffennaf 2017** | |
| **SEREMONI 3: 11.00yb**<br>Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig<br>Theatr Ffilm a Theledu | **SEREMONY 4: 3.00yp**<br>Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig |
| **Dydd Iau 20 Gorffennaf 2017** | |
| **SEREMONI 5: 11.00yb**<br>Astudiaethau Gwybodaeth<br>Y Gyfraith | **SEREMONI 6: 3.00yp**<br>Cyfrifiadureg<br>Mathemateg<br>Ffiseg |
| **Dydd Gwener 21 Gorffennaf 2017** | |
| **SEREMONI 7: 11.00yb**<br>Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear<br>Seicoleg | **SEREMONI 8: 3.00yp**<br>Gwleidyddiaeth Ryngwladol<br>Hanes a Hanes Cymru |

## Graddau er cof

Dyfernir gradd ar ôl marwolaeth i Emily Price, myfyrwraig blwyddyn olaf BSc Mathemateg a Ffiseg a fu farw'n sydyn ym mis Mai eleni ar ôl salwch byr. Roedd Emily yn llysgennad gwych gyda thalent ar gyfer cyflwyno gwyddoniaeth i bobl ifanc a'u hannog i astudio'r pynciau yr oedd hi mor hoff ohonynt. Mae'r Brifysgol yn trafod sefydlu bwrsariaeth er cof amdani gyda'i theulu.

Dyfernir gradd ar ôl marwolaeth BSc Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgell trwy ddysgu o bell i Caitríona Lucas. Bu farw Caitríona ar 12 Medi 2016 wrth wirfoddoli gyda Gwylwyr y Glannau Doolin yn Iwerddon thalwyd teyrngedau i'w dewrder a'i hanhunanoldeb gan Lywodraeth Iwerddon ac yn y wasg genedlaethol.

Mae Andrew Fleming yn aelod o'r Tîm Gwasanaethau Eiddo a Chynnal a Chadw Tiroedd yn yr Adran Ystadau, lle mae e'n cyflawni ystod eang o dasgau garddwriaethol sy'n ymwneud â sicrhau bod campysau'r Brifysgol yn edrych ar eu gorau.




# Yn ogystal â'r swydd bob dydd

Ond, yn ogystal â'r swydd bob dydd, mae Andrew yn fowliwr lawnt o fri, sydd wedi cystadlu'n rhyngwladol ac ennill nifer o gystadlaethau a theitlau.

**Dywedwch ychydig wrthym am fowlio lawnt**
Fel arfer bydd bowlio lawnt yn cael ei chwarae y tu allan ar lawnt fowlio. Y syniad yw rholio'r bowliau i lawr y lawnt a cheisio eu cael i aros mor agos â phosibl i bêl wen lai a elwir yn "jac".

Mae'n swnio'n hawdd, ond nid yw'r bowliau yn hollol grwn – mae nhw wedi'u siafio ar un ochr sy'n rhoi gogwydd iddyn nhw ac yn peri iddyn nhw newid cyfeiriad wrth rolio.

Ar ôl chwarae pob un o'r bowliau, bydd cystadleuydd neu dîm yn ennill pwynt am bob un o'u bowliau sy'n nes at y jac na bowl agosaf y gwrthwynebydd.

Mae nifer o wahanol fathau o fowlio – lawnt, grin gefngrom, mat byr, tu mewn a thu allan, a hefyd parafowlio a bowlio ar gyfer y rheiny sydd â nam ar eu golwg.

Caiff bowlio ei chwarae yn y rhan fwyaf o wledydd y Gymanwlad ac mae'n ehangu i ardaloedd eraill, megis Twrci, yr Iseldiroedd, yr Almaen, Portiwgal, Sbaen, a'r Swistir.

**Pryd a pham wnaethoch chi ddechrau ymddiddori mewn bowlio?**
Roedd fy nhad eisoes yn bowlio, felly mi es i gydag ef a chymryd pethau o'r fan yna. Roeddwn yn lwcus bod rhyw bump neu chwech o fy ffrindiau wedi dechrau ar yr un pryd. Rwy'n chwarae ers rhyw ddeng mlynedd ar hugain bellach.

**Beth rydych yn ei fwynhau am fowlio?**
Rwy'n hoffi cwrdd â gwahanol bobl a chael cyfle i chwarae (a churo) rhai o chwaraewyr gorau'r byd.

Rwy'n lwcus iawn hefyd fy mod i wedi cael gweld y byd trwy fowlio – rwyf wedi cynrychioli Cymru yng Nghystadleuaeth Fowlio'r Byd yn Awstralia, ac mewn digwyddiadau yn Seland Newydd, America, Hong Kong, ac Israel. Mae Dr Simon Payne, sy'n Ddarlithydd Gwyddor Chwaraeon a Seicoleg Iechyd Dynol yma yn y Brifysgol, wedi fy helpu gydag ochr seicoleg perfformio a maeth y gêm, sydd o gymorth wrth imi baratoi ar gyfer gofynion chwaraeon rhyngwladol mewn gwahanol wledydd.

Rwy'n chwarae i Glwb Bowlio Machynlleth sy'n glwb sy'n rhoi tipyn o bwyslais ar deuluoedd, ac mae llawer o fy ffrindiau a'r teulu yn chwarae yno felly mae yna ochr gymdeithasol dda iddi hefyd. Rwy'n mwynhau chwarae fel rhan o dîm, ac yn teimlo fod hynny'n well i fi na chwilio am glod personol – mae hynny'n wir hefyd am fy ngwaith yn y Brifysgol. Gyda'i gilydd gall pawb gyflawni mwy.

Yn ystod misoedd yr haf rwy'n chwarae tua chwe gwaith yr wythnos, felly mae bowlio yn fy nghadw i'n brysur iawn! Does gen i fawr o amser ar gyfer dim arall heblaw gwaith a bowlio a gweithio yn yr ardd.

**Beth yw'r isafbwyntiau?**
Colli!

**Beth yw'r uchafbwyntiau?**
Uchafbwynt arbennig i mi oedd cystadlu yng Ngemau'r Gymanwlad yn Delhi yn 2010.

Hefyd, ennill teitlau Cymru a Phrydain gyda chydchwaraewyr o Glwb Bowlio Machynlleth yn 2006, 2008 a 2009.

Ers imi gynrychioli Cymru am y tro cyntaf, rwyf wedi bod yn byw'r freuddwyd. Mae'n uchelgais gan bawb i gynrychioli eich gwlad yn eich dewis chwaraeon neu waith. Pe bawn i'n gadael bowlio yfory, ni fyddwn yn gallu cwyno.

**Beth sydd ar y gorwel i chi?**
Rwy'n un o ddeuddeg chwaraewr sy'n perthyn i Sgwad Elitaidd Cymru. Rwyf hefyd wedi cael fy newis ar gyfer Tîm Rhyngwladol Cymru ar gyfer 2017, a fi fydd capten Tîm Cymru pan fyddwn yn chwarae yn Belfast yn hwyrach yn y flwyddyn. Y tro diwethaf y daeth unrhyw un o Sir Drefaldwyn yn Gapten oedd yn 1931, felly mae'n anrhydedd fawr i fi, a'r clwb, i Fachynlleth ac i'r sir.

**Beth fyddech chi'n ei ddweud wrth rywun sydd am ddechrau bowlio?**
Byddwn yn dweud, rhowch gynnig arni – d'yw e ddim mor rhwydd ag y mae'n edrych!

Pan ddechreuais, gêm ar gyfer hen ddynion oedd hi, bellach mae'r rhod bron wedi troi'n llwyr a fi yw'r hen ddyn! Yn y tîm presennol fi yw'r pedwerydd hynaf – a phan ymunais i, fi oedd y pedwerydd ieuengaf.

Rwy'n hyfforddwr cymwysedig ac yn cynnal sesiynau hyfforddi yn fy nghlwb lleol i annog pobl, hen ac ifanc, i roi cynnig ar fowlio. Dechreuais wneud hyn tua dwy flynedd yn ôl ac mae wedi bod yn llwyddiannus iawn. Ni fyddwn wedi gallu bod mor llwyddiannus heb gymorth fy nghydchwaraewyr, ac rwy'n teimlo bod hyfforddi yn ffordd o dalu'n ôl i'r clwb am ei gefnogaeth yn y gorffennol.

Mae sawl tîm yn yr ardal – er enghraifft, dau yn Aberystwyth, un yn Nhregaron, ac un yn Aberaeron. Os oes gennych ddiddordeb, byddwn yn hapus iawn i'ch rhoi mewn cysylltiad â'r tîm lleol.

Beth am roi cynnig arni?

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

aberworks.aber.ac.uk

ABERWorks

*Are you an AU Student who is looking for paid part-time work and keen on gaining valuable experience for your CV?*

**AberWorks** aims to helps students gain practical work experience within the University. Its key aims are to increase your skills and self-awareness to develop your employability.

**WHAT KIND OF ROLES ARE AVAILABLE?**

**AberWorks** includes opportunities for students who wish to earn while they learn. The opportunities available range from Catering, Administrative work, Ambassador roles and more.


During term-time if work is available, you may choose to work up to 15 hours per week, with more hours possible during vacation periods.


Salary will be dependent on the casual role you undertake. Work could be based on any of the University's campuses including the Old College. You have the choice of accepting work that fits around your schedule.

To register for the **AberWorks** Scheme, please visit: aberworks.aber.ac.uk









# Gwaith Aber – astudiaeth achos

Mae Christopher Corish yn astudio ar gyfer gradd mewn Celfyddyd Gain. Mae'n gweithio i'r Gwasanaethau Croeso yn TaMed Da, swydd a gafodd drwy gynllun GwaithAber:

"Roedd fy mhrofiad o'r cynllun GwaithAber yn dda. Cefais syndod ynghylch pa mor gyflym y digwyddodd pob dim – un diwrnod roeddwn yn cael gwahoddiad i siarad â TaMed Da, a'r diwrnod nesaf roeddwn yn gwneud shifft brawf.

"Rwy'n credu mod i wedi dysgu sut i reoli fy amser yn well – rwy'n cyflawni mwy o waith academaidd ers dechrau gweithio yn TaMed Da oherwydd bod gen i lai o amser i ymdroi.

"Bu'n gromlin dysg ddiddorol. Rwyf wedi dysgu llawer, a chwrdd â llawer o bobl. Rwyf wedi dysgu hefyd sut i weithio gyda gwahanol bobl oherwydd bod gan wahanol bobl wahanol ffyrdd o wneud pethau, a gwahanol agweddau tuag at fywyd."




# Ymchwil Iechyd a Lles yn y Brifysgol



Mae Dr Rhys Thatcher, Darllenydd mewn Ffisioleg Ymarfer Corff yn IBERS, yn rhoi adroddiad ar lansio uned ymchwil newydd sy'n ganolbwynt i ymchwil iechyd a lles yn y Brifysgol:

Mae llawer o'r problemau iechyd sy'n wynebu'r gymdeithas heddiw yn gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio a'r cynnydd mewn cyflyrau iechyd cronig. Bob wythnos mae straeon yn y newyddion lleol a chenedlaethol sy'n ymwneud â'r cynnydd mewn clefyd y siwgr, clefydau cardiofasgiwlar a phroblemau gwybyddol, a'r baich cynyddol y mae'r rhain yn eu rhoi ar y gwasanaethau iechyd a chymdeithasol.

Mae ymchwil dros nifer o flynyddoedd wedi dangos manteision amlwg gwneud newidiadau i ffordd o fyw ar gyfer llawer o'r problemau iechyd hyn. Mae'r ymchwil hwn wedi cynnig argymhellion ynghylch faint o fwyd ac alcohol y dylid ei fwyta/yfed, a'r lefelau o weithgarwch corfforol, ond dim ond un oedolyn mewn tri sy'n bwyta pump neu fwy o gyfrannau o ffrwythau a llysiau bob dydd, a dim ond un oedolyn mewn pedwar sy'n cwrdd ag isafswm yr argymhelliad ar gyfer gweithgarwch corfforol bob dydd (Arolwg Iechyd Cymru, 2015).

Er mwyn i ni allu deall yn well sut i drosi'r canllawiau dietegol a gweithgarwch corfforol yn newid go iawn o fewn y boblogaeth yn gyffredinol, mae'r Brifysgol wedi lansio'r Uned Ymchwil Asesu Lles ac Iechyd (WARU).

Mae WARU, sydd wedi'i lleoli yn Adeilad Carwyn James ar Gampws Penglais, yn hyrwyddo ymchwil yn ymwneud ag iechyd a lles o fewn y Brifysgol trwy feithrin cysylltiadau â'r gymuned leol a darparu cyfleuster i gwrdd ag aelodau o'r cyhoedd a'u galluogi i gyfrannu at y broses ymchwil. Mae ymweliadau gan WARU â Morrisons, swyddfeydd Llywodraeth Cymru, a Tesco wedi rhoi cyfle i'r gymuned leol gael asesiadau iechyd yn cynnwys mesur cyfansoddiad y corff, pwysau gwaed, a chryfder a chydbwysedd. Cawsant hefyd gyfle i gael adborth a chyngor ar ffyrdd o fyw'n iach.

Yn ogystal â gweithio gyda'r cyhoedd, mae WARU hefyd yn gweithio'n agos â Chanolfan Ragoriaeth mewn Ymchwil Iechyd Gwledig y Brifysgol a nifer o sefydliadau allanol, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Clwstwr Meddygon Teulu Gogledd Ceredigion, Parkinson's UK ac Age Cymru.

Ar hyn o bryd, mae'r Uned yn gweithredu dau brosiect sydd yn cael eu hariannu gan y Sefydliad Ewropeaidd dros Arloesedd a Thechnoleg:

Mae'r cyntaf, 'FrAilty Care and wEll-funcTion' (FACET) yn cael ei arwain gan Dr Marco Arkesteijn, ac yn canolbwyntio ar atal eiddilwch. Mae eiddilwch yn cynyddu risg ac effaith digwyddiadau niweidiol ac yn gwneud unigolion yn fwy agored i ddirywiad buan a sydyn yn eu gallu ymarferol (gallu i gyflawni gweithgareddau bywyd bob dydd, megis ymolchi, gwisgo, siopa a gwaith tŷ).

Nod prosiect FACET yw codi'r ymwybyddiaeth o eiddilwch ymhlith unigolion a phobl broffesiynol a'r hyn y gall pobl ei wneud i atal eiddilwch. Mae'n anelu hefyd at helpu oedolion hŷn i fonitro a gwella eu gallu ymarferol, iechyd a lles.

Fel rhan o'r prosiect hwn, mae wyth deg o oedolion hŷn eisoes wedi derbyn MOT 'ffitrwydd ac iechyd ymarferol'. Bydd cwrs

ar-lein am ddim ar heneiddio'n iach ac o fis Gorffennaf eleni (2017) byddwn yn ceisio recriwtio pobl i'r prosiect.

Mae'r ail brosiect, 'Monitro Iechyd a Lles yn y Cartref' (MWH@home), yn anelu at asesu'r defnydd o dechnoleg ddigidol 'glyfar' i helpu unigolion i fonitro, ac o bosibl wella, eu maeth, cyfansoddiad eu cyrff a'u lles yn gyffredinol.

Mae ymchwil diweddar yn IBERS wedi dangos bod modd dod o hyd i gemegau mewn wrin sy'n deillio o fwyd, a bod modd eu mesur er mwyn asesu diet yn gywir. Mae WARU bellach yn defnyddio'r dechnoleg hon i fonitro diet unigolion yn y gymuned.

Un o amcanion allweddol y prosiect MWH@home yw penderfynu a all darparu mesur gwrthrychol o ddiet drwy ddadansoddi wrin, ar y cyd â dyddiaduron bwyd pobl, gynorthwyo unigolion i ddeall eu harferion bwyta gwirioneddol a hyrwyddo newid mewn ymddygiad a ffordd iachach o fyw.

Mi fydd unigolion sy'n gwirfoddoli ar gyfer y prosiect yn cael clorian bwyso 'glyfar' am ddim a thapiau mesur sy'n gysylltiedig â chyfrifiadur tabled (a ddarperir gan y prosiect) i'w helpu i amcangyfrif cyflwr y corff yn eu cartrefi eu hunain.

Byddant yn ymweld â WARU i ymgymryd â chyfres gynhwysfawr o brofion i asesu eu lles ac iechyd a chael adborth ar eu profion wrin ar dri achlysur dros gyfnod o flwyddyn

Dan arweiniad yr Athro John Draper, nod y prosiect yw cyfrannu tuag at fynd i'r afael â'r cynnydd yn y DU mewn gordewdra a chyflyrau iechyd cronig fel clefyd y siwgr math 2 a chlefydau'r galon, sydd yn aml yn gysylltiedig â diet.

Trwy weithio gyda phobl leol, mae WARU yn anelu at ddeall yn well sut y gallwn annog pobl i fyw ffordd o fyw iachach trwy fwyta'n iach a bod yn gorfforol egnïol, gan felly gyfrannu'n uniongyrchol tuag at atebion ymarferol yn y dyfodol i helpu i leihau baich clefydau cronig a derbyniadau i'r ysbyty yn y DU.

Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r astudiaethau cyfredol ar wefan WARU, ac mae gennym hefyd dudalen Facebook a chyfrif Twitter gweithredol. Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan yn ein prosiectau, neu gael gwybod y diweddaraf am ddigwyddiadau sydd i ddod, gallwch gysylltu â ni trwy e-bost: WARU@aber.ac.uk.

## Colofn UMAber

# Swyddogaethau newydd ac wynebau newydd



### Erbyn i'r erthygl hon gael ei hargraffu byddwn wedi croesawu tîm newydd o swyddogion i UMAber a byddant yn ymgyfarwyddo â'u swyddogaethau newydd.

**Swyddog Datblygu'r Undeb: Bruce Wight**
Daw Bruce o Loughborough yn wreiddiol, a bu'n astudio Mathemateg. Eleni, bydd Bruce yn canolbwyntio ar wella'r Undeb ar gyfer y dyfodol ac am sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael ei glywed.

**Swyddog Materion Academaidd: Emma Beenham**
O Torquay yn Nyfnaint y daw Emma'n wreiddiol, ac fe astudiodd Ddaearyddiaeth Ffisegol. Mae ei swyddogaeth hi'n canolbwyntio ar hyrwyddo buddiannau academaidd ein myfyrwyr.

**Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA: Gwion Llwyd Williams**
O Benygroes ger Caernarfon y daw Gwion, a'i bwnc oedd Hanes a Hanes Cymru. Mae'r swyddogaeth hon yn canolbwyntio ar hyrwyddo diwylliant Cymru, a rhoi'r cyfle i fyfyrwyr Aber ddysgu, siarad a byw'r Gymraeg.

**Swyddog Cyfleoedd Myfyrwyr: Jessica Williams**
Drama, Theatr, a Ffilm a Theledu yw'r pynciau a astudiodd Jessica. Mae hi'n hanu o Gaerffili, ac mae ei swyddogaeth yn canolbwyntio ar ddarparu i fyfyrwyr Aber y daith fyfyriwr orau bosibl, gan roi iddynt fwy na gradd.

**Swyddog Lles: Molly-Jean Longden**
Drama ac Astudiaethau Theatr oedd pynciau Molly-Jean, sy'n dod yn wreiddiol o Fanceinion. Mae'r swyddogaeth hon yn canolbwyntio ar sicrhau bod ein myfyrwyr mor hapus ac iach ag y gallant fod.

Nid y rhain yw'r unig 'bethau newydd' yma yn UMAber. Rydym yn adfywio ein gwefan hefyd, ac erbyn diwrnod y canlyniadau Safon Uwch ym mis Awst, byddwn wedi ei lansio! Cadwch lygad amdani!

Ewch i www.abersu.co.uk i gael rhagor o newyddion.

**Eleri Wyn**
Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu UMAber



Chwith i'r dde: Swyddogion newydd UMAber: Molly-Jean Longden (Swyddog Lles), Bruce Wight (Swyddog Datblygu'r Undeb), Gwion Llwyd Williams (Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA), Emma Beenham (Swyddog Materion Academaidd) a Jessica Williams (Swyddog Cyfleoedd Myfyrwyr)

# Gwobr i raglen Hyfforddiant Sgiliau Digidol




Daeth rhaglen Hyfforddiant Sgiliau Digidol arloesol y Brifysgol yn ail orau yn ddiweddar yng Ngwobrau Blynyddol Adnoddau Dynol Prifysgolion y DU, yn y categori Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

Mae'r gwobrau'n cydnabod mentrau Adnoddau Dynol sy'n mynd i'r afael â materion o bwys mewn ffordd greadigol ac effeithiol.

Anelwyd y rhaglen Hyfforddiant Sgiliau Digidol ym Mhrifysgol Aberystwyth at staff a oedd yn awyddus i wella eu sgiliau digidol, ac roedd yn cynnwys defnyddio Excel, Word a meddalwedd eraill, yn ogystal â chanllaw llythrennedd digidol i lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Cefnogwyd y rhaglen gan yr Adran Adnoddau Dynol (AD), undebau llafur UNSAIN ac UNITE, TUC Cymru a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA Cymru).

Dywedodd Susan Chambers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol: "Mae hon wedi bod yn rhaglen sydd wir wedi ysbrydoli â'r nod o sicrhau cydraddoldeb mynediad i dechnoleg ddigidol, a thrwy hynny adnoddau a chyfleoedd ehangach. Mae wedi bod yn ddefnyddiol i weithwyr ar draws y Brifysgol, yn enwedig Gwasanaethau Campws a Masnachol a'r Adran Ystadau, lle nad ydynt o reidrwydd yn defnyddio TG yn rheolaidd fel rhan o'u gwaith bob dydd."



Huw Jones yn derbyn ei dystysgrif Sgiliau Digidol oddi wrth yr Athro John Grattan

Gwaith Huw Jones yw cofnodi symud da byw ar gyfer Swyddfa'r Ffermydd yn IBERS; bu'n gweithio i Ganolfan Ymchwil yr Amgylchedd ac lechyd yn yr Adran Ddaearyddiaeth a Gwyddorau Daear cyn hynny: "Teimlais fod y cwrs wir o fudd i mi. Does gen i fawr o brofiad o weithio gyda chyfrifiaduron ond gallwn wneud y pethau mwyaf sylfaenol, a'r hyn roeddwn i'n gallu ei wneud, roeddwn i'n ei wneud yn dda. Ond roedd gen i ddiffyg hyder, ac ar fy niwrnod cyntaf ar y cwrs roeddwn i'n poeni am yr hyn oedd o'm mlaen i. Ond, fel gyda phethau eraill mewn bywyd, po fwyaf y byddwch yn ei wneud, mwyaf hyderus y byddwch a mwyaf cartrefol yn ei wneud."

Cafodd Olga Kittle, glanhawraig yn Adeilad Parry Williams, ei hannog i ddilyn y cwrs hyfforddi Sgiliau Digidol gan ei rheolwr llinell: "Doeddwn i heb gyffwrdd â chyfrifiadur o'r blaen, felly roedd hyn yn beth newydd i fi. Does gen i ddim cyfrifiadur gartref felly byddwn yn dod mewn am 5.30 y bore i ddefnyddio cyfrifiadur yn Llyfrgell Hugh Owen i ymarfer y pethau roeddwn wedi'u dysgu am hanner awr cyn dechrau gweithio. Rwyf wrth fy modd yn teithio a nawr gallaf ddefnyddio'r we i gael mwy o wybodaeth am y mannau y byddwn yn hoffi ymweld â nhw."

I gydnabod ei hymroddiad eithriadol, cyflwynodd y Brifysgol gyfrifiadur wedi ei ddatgomisiynu i Olga.

Dywedodd Lesley Spees, Partner Busnes Adnoddau Dynol: "Roedd Olga yn un o blith nifer o staff yn y brifysgol sy'n gweithio mewn swydd nad oedd yn cynnwys defnyddio cyfrifiaduron yn y gorffennol, ond y disgwylir iddynt bellach weithredu fwyfwy o fewn i fframwaith technolegol ac i ddarparu gwasanaethau i'n cwsmeriaid y mae'r byd digidol yn norm iddynt.

"Mae Olga wedi cyflawni cymaint drwy ei hymdrech a'i phenderfyniad ei hun i ddatblygu sgiliau digidol a hyder, ac roedd darparu cyfrifiadur iddi ei ddefnyddio yn ei chartref ei hun i ymarfer yr hyn a ddysgodd yn yr hyfforddiant sgiliau digidol, yn eiliad foddhaus iawn i bawb ohonom.

"Rydym yn falch o'r gwaith hwn gan ei fod yn galluogi staff megis Olga i ddatblygu ei sgiliau llythrennedd cyfrifiadurol."



Cyflwyno cyfrifiadur wedi ei ddatgomisiynu gan y Brifysgol i Olga Kittle. O'r chwith i'r dde: Lesley Spees, Susan Chambers, Olga Kittle a Tom Bates (Pennaeth Bywyd Campws)

Mae'r Adran Adnoddau Dynol yn awyddus i glywed gan aelodau staff a fyddai'n hoffi archwilio agwedd benodol o sgiliau digidol, neu ymestyn eu gwybodaeth o feddalwedd penodol. Cysylltwch â Lesley Spees (les24) i drafod.




Lesley Spees (canol) a Sue Chambers (ail o'r chwith) o dîm Adnoddau Dynol y Brifysgol yn derbyn cydnabyddiaeth am y gwaith da a wneir ar hyfforddiant Sgiliau Digidol yng Ngwobrau Blynyddol Adnoddau Dynol Prifysgolion y DU, yr UHR.

# Newyddion diweddaraf y Swyddfa Ryngwladol



## Cafodd y Swyddfa Ryngwladol flwyddyn brysur tu hwnt, yn cefnogi gweithgareddau i gyfoethogi profiad y myfyrwyr rhyngwladol a hyrwyddo amgylchedd astudio amrywiol a deinamig.

Roeddem yn arbennig o falch bod Aberystwyth wedi dod i'r ail safle yn y categori 'Rhyngwladol' yng ngwobrau WhatUni eleni, a byddwn yn parhau i ddatblygu cyfleoedd i fyfyrwyr cartref a myfyrwyr rhyngwladol astudio, byw a chymdeithasu gyda'i gilydd mewn amgylchedd diwylliannol amrywiol.

Dyma rai o'r pethau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn:

Yn 2016 cafodd myfyrwyr a'u teuluoedd eu croesawu o faes awyr Birmingham gan Wasanaeth Cwrdd a Chyfarch newydd. Mae tocynnau ar gyfer gwasanaeth Cwrdd a Chyfarch 2017 ar werth erbyn hyn a gobeithiwn y bydd y gwasanaeth eleni'r un mor llwyddiannus.

Yn Ionawr 2017 dathlwyd y Flwyddyn newydd Tsieinïaidd mewn digwyddiad llwyddiannus iawn a arweiniwyd gan Gymdeithas y Myfyrwyr Tsieinïaidd.



Ym mis Mawrth 2017 cynhaliwyd Wythnos Un Byd Prifysgol Aberystwyth, sy'n achlysur blynyddol erbyn hyn. Yn rhan o'r wythnos cafwyd nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus, yn cynnwys: Noson Malaysia, Noson Gala, Ffair Byd a dwy noson drafod.

Cymerodd dros 200 o fyfyrwyr ran yn yr Wythnos Un Byd, ac fe hoffem ddiolch i bob un ohonynt ac i bawb a wnaeth yr wythnos yn llwyddiant. Hoffem hefyd ddiolch i Gronfa Aber a ddarparodd gyllid i ganiatáu i fyfyrwyr a chymdeithasau gynnal stondinau yn y Ffair Byd.

Rydym wedi parhau i gynnig ein rhaglen gymdeithasol boblogaidd, ac fe aethom â chyfanswm o 253 o fyfyrwyr ar deithiau i weld Cymru eleni, gan gynnwys ymweliadau â Chaerdydd, Y Senedd, Portmeirion, a Chastell Harlech.

Agwedd arall ar y ddarpariaeth yw'r un ar ddeg diwrnod o fwyd rhyngwladol a ddarparwyd gan gydweithwyr yn TaMed Da.

Yn yr haf, bwriadwn lansio cynllun Llysgenhadon Byd-eang. Bydd hyn gobeithio yn rhoi cymorth ychwanegol i fyfyrwyr rhyngwladol i wella ymhellach eu profiad yma yn Aberystwyth.

Rydym yn parhau i ddatblygu'r rhaglen Profiad Myfyrwyr Rhyngwladol a byddem yn annog staff i roi adborth ar y gweithgareddau cyfredol, neu syniadau am gynlluniau newydd. Ebostiwch awgrymiadau i international@aber.ac.uk.

**Lisa Fisher**
**Cynorthwyydd Rhyngwladol**





# Fy ymchwil



Mae *Newyddion Aber* yn codi'r llen ar waith rhai o'n hymchwilwyr sydd ar ddechrau eu gyrfa. Yn yr ail mewn cyfres o erthyglau, mae'r Dr Fergus Oakes, sy'n Gymrawd Ymchwil yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru, yn sôn am ei waith ymchwil ef.

Treuliodd Fergus, sy'n wreiddiol o Morpeth yn Northumberland, ddeng mlynedd ym Mhrifysgol Glasgow, lle'r enillodd MA mewn Hanes, MLitt mewn Hanes, a PhD yn Hanes yr Oesoedd Canol. Ymunodd â Phrifysgol Aberystwyth yn Ionawr 2016.

**Rhowch ddisgrifiad cryno o'ch ymchwil.**
Rwy'n Gymrawd Ymchwil ar Brosiect Imprint, sef un o'r prif brosiectau sy'n cael ei ariannu gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) ac yn cael ei redeg ar y cyd rhwng Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Lincoln; rwy'n gweithio gyda Chyd-ymchwilydd y prosiect, Dr Elizabeth New.

Imprint yw'r prosiect cyntaf o'i fath, yn cyfuno technegau fforensig sydd ar flaen y gad ag ymchwil hanesyddol draddodiadol i ddadansoddi'r olion bysedd a'r olion cledrau dwylo a welir ar gefn seliau cwyr; bydd yn arwain at ddarganfyddiadau newydd am strwythurau cymdeithasol ac arferion cyfreithiol y cyfnod (1150-1350), yn ogystal â darparu data fydd o gymorth i arbenigwyr gwyddor adnabod yr oes sydd ohoni.

Wrth greu sêl ganoloesol, byddai olion y sawl a fyddai'n ei chreu yn aml yn cael eu sodro yn y cwyr cynnes, a fyddai yn ei dro yn caledu wrth oeri, a chadw argraff yr olion.

Elfen allweddol o'r prosiect yw defnyddio darn o offer uwch-dechnoleg o'r enw Crime Lite Imager. Dyfais ddelweddu aml-sbectrwm yw hon a ddefnyddir gan yr heddlu ac asiantaethau eraill sy'n gweithredu'r gyfraith i weld a delweddu olion bysedd o safle'r drosedd. Byddwn ni yn ei defnyddio i gadw delweddau o'r olion ar y seliau cwyr er mwyn i ddadansoddwr olion bysedd y tîm eu hastudio.

Roedd fy ngwaith ymchwil ar gyfer fy noethuriaeth yn ymwneud â natur rhyfel a'i effaith ar gymdeithas yn ystod rhyfel cartref Lloegr rhwng 1264-1267 (a elwid yn Rhyfel y Barwniaid), felly, er fy mod yn arbenigwr ar y 13$^{eg}$ ganrif, roedd fy nghefndir ym maes selyddiaeth (astudio seliau cwyr) yn eithaf cyfyngedig.

Erbyn hyn, gyda fy nghydweithiwr yn Lincoln, gallaf ddweud fy mod i'n un o'r unig ddau Selyddiwr Fforensig yn y byd!

**Disgrifiwch ddiwrnod nodweddiadol yn eich gwaith**
Mae'n amrywio'n fawr. Yn ystod blwyddyn gyntaf y prosiect, roeddwn wrthi'n casglu'r prif ddata, a oedd yn golygu treulio pedair wythnos ar y tro ym mhob un o'r archifau partner yn y wlad, sef Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Archifau Eglwys Gadeiriol Henffordd, Llyfrgell Eglwys Gadeiriol Caerwysg, Hawlysgrifau Abaty Westminster a Swyddfa Cofnodion Swydd Lincoln.

Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn treulio fy nyddiau yn delweddu cefn y seliau, yn tynnu lluniau o'r dogfennau ac yn nodi'r cynnwys ar fas-data.

Ers inni orffen casglu'r prif ddata ynghyd, rwyf yn canolbwyntio ar dasg ganoloesol fwy di-nod o lawer, sef dyddio'r dogfennau a helpu i boblogi gwefan y prosiect.

**Beth sy'n rhoi'r boddhad pennaf i chi?**
Mae'r prosiect wedi cwmpasu ystod o wahanol brofiadau a heriau. Efallai mai'r agwedd sydd wedi rhoi'r boddhad pennaf i mi oedd y cyfle i weithio gyda chynifer o ddogfennau canoloesol gwerthfawr a chyfareddol mewn lleoliadau cofiadwy iawn.

Cafwyd ambell uchafbwynt arbennig. Yng Nghaerwysg, cawsom ganiatâd i ddefnyddio'r Crime Lite Imager ar Lyfr Caerwysg, sy'n dyddio o'r 10fed ganrif ac yn un o'r gweithiau sy'n cael eu rhestru gan UNESCO, a Llyfr Domesday Exon; braint o'r mwyaf oedd hynny.

Yn Abaty Westminster roeddwn yn gweithio yn ystafell yr halysgrifau canoloesol ac oddi yno fe allwch edrych lawr ar Gornel y Beirdd a'r côr. Mae llawr teils hardd o'r 14$^{eg}$ ganrif yn yr ystafell a chistiau halysgrifau o bren, sydd heb eu symud ers iddynt gael eu gosod yn yr Abaty ar ôl iddo gael ei ailgodi gan Harri III yn y 13$^{eg}$ ganrif. Roedd y profiad o weithio mewn ystafell o'r fath a chlywed y côr a'r organydd wrthi'n ymarfer yn eithaf cofiadwy.

**Beth sydd yn fwyaf o her i chi?**
Mae treulio cyfnodau hir oddi cartref yn dipyn o her, ond mae fy ngwraig a finnau yn hen gyfarwydd â defnyddio Skype.


Mae bywyd fel ymchwilydd ôl-raddedig hefyd yn golygu symud o un dasg i'r llall yn rheolaidd. Er bod hynny'n rhoi llawer o foddhad mewn sawl ffordd, mae'n golygu hefyd ei bod hi'n eithaf anodd i sefydlu trefn arferol, ac mae natur deithiol y swydd am y flwyddyn gyntaf yn golygu fy mod i weithiau'n teimlo fel aelod dros dro yn yr adran.

Gwybodaeth bellach am Brosiect Imprint:
Twitter: @Imprint_Project
Facebook: ImprintProjectseals
Blog: imprintproject.blogs.lincoln.ac.uk/

Os ydych chi'n Gynorthwy-ydd Ymchwil Ôl-Raddedig ac yn awyddus i rannu'ch ymchwil gyda chynulleidfa ehangach, anfonwch ebost at cyfathrebu@aber.ac.uk.

# Golwg ar… Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau

Wrth i Dîm Amrywiaeth a Chydraddoldeb y Brifysgol baratoi cais y sefydliad i adnewyddu Nod Siarter Athena Swan, aeth Ruth Fowler, Swyddog Cyfathrebu a Chydraddoldeb yn yr Adran Adnoddau Dynol, i holi tri aelod o staff am gymhareb anghydbwysedd rhwng y rhywiau a pham ei bod hi mor bwysig ein bod ni'n ymwybodol ohono:



**Kath Williams**
**Rheolwr Athrofa**
**Athrofa'r Celfyddydau a'r Dyniaethau**

"Rwy'n credu bod cael amrywiaeth o staff yn rhywbeth pwysig ynddo'i hun, nid mater o chwarae ag ystadegau mohono. Mae gan y Brifysgol hon draddodiad hir a balch - rydym yma ers amser hir; ond rhaid i ni fod yn ofalus o hyd, a chydbwyso hynny â bod yn sefydliad blaengar a modern. Mae ymwybyddiaeth o gymhareb anghydbwysedd rhwng y rhywiau a sut mae'n cael ei amlygu ar draws sbectrwm y swyddi yn bwysig, a dylem gymryd ein cyfrifoldeb i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd hwnnw o ddifrif.

"Er ei bod hi'n ymddangos yn amser hir, mae llai na hanner can mlynedd ers y Ddeddf Cyflog Cyfartal. Mae'n anhygoel i feddwl bod llai na hanner can mlynedd ers i ni orfod cael deddf seneddol i bennu y dylid rhoi'r un gwerth a'r un cyflog ar gyfer gwaith gan fenywod ag i'w cymheiriaid o ddynion. Ond, ceir nenfwd gwydr o hyd. Mae dynion yn ennill mwy na'u cymheiriaid sy'n fenywod a rhaid i ni fod yn ymwybodol bod hynny'n broblem barhaus.

"Bron 20 mlynedd yn ôl dechreuais weithio mewn Prifysgol a oedd yn cael ei rheoli gan ddynion. Fel nifer o sefydliadau, roedd yn cael ei arwain gan ddynion ac roedd y rhan fwyaf o Benaethiaid Adrannau, Academaidd a Phroffesiynol, yn ddynion. Ond, rwyf wedi gweld y sefyllfa hon yn newid raddol i fod yn beth gwahanol. O'm safbwynt innau, mae saith o'r naw adran yn yr Athrofa rwyf yn gweithio ynddi bellach yn cael eu harwain gan fenywod.

"Rwy'n credu bod lle i wella o hyd a bod angen bod yn ymwybodol o fod yn rhy hunanfodlon. Er hynny, mae gennym bolisi AD yn ei le, mae dynion a menywod yn ein cynrychioli ar y lefel uchaf ac yn ddiweddar, rydym wedi croesawu ail fenyw yn Is-Ganghellor arnom. Rwy'n credu y dylem ymfalchïo yn hynny."

**Christine Zarges**
**Darlithydd**
**Adran Gyfrifiadureg**

"Mae'r gymhareb anghydbwysedd rhwng y rhywiau yn fater pwysig iawn mewn cyfrifiadureg. Ar draws y sector yn gyffredinol, fel y bydd y rhan fwyaf ohonoch yn gwybod, mae llawer llai o fyfyrwyr ac aelodau staff sy'n fenywod.

"Mae llawer eisoes yn digwydd ym Mhrifysgol Aberystwyth i wneud yn iawn am hyn. Mae llawer mwy o fenywod ymhlith staff Cyfrifiadureg yn Aberystwyth nag oedd yn y brifysgol ddiwethaf imi weithio ynddi, ac mae'n bwysig fod hynny'n weladwy i'r byd tu allan gan y gall hynny annog menywod i ddod yma yn fyfyrwyr. Ym mis Ebrill, trefnodd y Brifysgol 10fed Colociwm BCSWomen Lovelace. Sefydlwyd Colociwm Lovelace gan Dr Hannah Dee sy'n Uwch-ddarlithydd yn yr Adran Gyfrifiadureg, ac mae'r colociwm bellach wedi datblygu yn brif gynhadledd y DU ar gyfrifiadura sy'n cael ei neilltuo'n benodol i annog mwy o fyfyrwyr sy'n fenywod i fentro i fyd cyfrifiadura a TG.

"Mae nifer o fentrau eraill sy'n anelu at wneud cyfrifiadureg yn fwy deniadol i fenywod, gan fod cyfrifiadura yn faes sy'n cynnig llawer o swyddi, ac, ar hyn o bryd, mae'r sector yn methu allan ar lawer o sgiliau a allai fod gan fenywod.

"Mae cyfrifiadureg yn faes eang iawn, ac mae angen gwneud yn sicr fod menywod yn ymwybodol o'r holl wahanol arbenigeddau sy'n perthyn i'r pwnc, yn ogystal â'r gorgyffwrdd posibl â phynciau eraill, fel y gwyddorau biolegol a meddygol. Rhaid i ysgolion chwarae'u rhan wrth annog merched i astudio cyfrifiadureg ar gyfer TGAU/Safon Uwch hefyd."



**Steve Walsh**
**Pennaeth Data a Dadansoddi Systemau**
**Adran Gynllunio a Llywodraethiant**

"A gwisgo het sinigaidd iawn, mae'n bwysig fod y Brifysgol yn ymwybodol o'r gwahaniaethau rhwng y rhywiau, gan fod hynny'n allweddol ar gyfer denu myfyrwyr. Mae gennym o leiaf yr un nifer o fyfyrwyr sy'n fenywod â myfyrwyr sy'n ddynion, a byddai'n ddwl i beidio â meddwl am yr holl rywiau er mwyn sicrhau bod ein negeseuon recriwtio yn cael eu targedu'n briodol.

"O ran yr ystadegau, eleni yw'r flwyddyn gyntaf erioed i ni ddenu mwy o fenywod na dynion. Mae hynny ynddo'i hun yn rhywbeth i'w ddathlu, ond mae gennym nifer o flynyddoedd o recriwtio llai cytbwys i wneud yn iawn amdanynt.

"Ar draws ein hadrannau academaidd, ceir nifer o enghreifftiau o ddenu israddedigion sydd wedi golygu bod dynion neu fenywod yn cael eu tangynrychioli'n ddirfawr. Byddai cael trefn ar y gwahaniaethau hynny a sicrhau bod cyfrifiadureg, er enghraifft, yn un mor boblogaidd i fenywod ag yw i ddynion, neu wneud addysg yr un mor ddeniadol i ddynion ag yw i fenywod, yn gamau mawr ymlaen i gymdeithas.

"Rydym yn byw mewn diwylliant sy'n dechrau ystyried problemau'r rhywiau, ond mae nifer o ragfarnau cymdeithasol cynwysedig o hyd y mae angen eu gwrthweithio. Os na wnawn ni roi gwerth ac ystyriaeth gyfartal i'r holl rywiau, nid ydym yn byw mewn cymdeithas sy'n trin pawb fel y dymunwn gael ein trin, ac yn gwneud y gorau o ddoniau pawb."

# Penodiadau

### ADRAN CYFRIFIADUREG



Yn ddiweddar, penodwyd **Otar Akanyeti** yn Ddarlithydd yn yr Adran. Enillodd Otar ei Ddoethuriaeth ym maes Roboteg a bu'n ymchwilydd ôl-ddoethurol yn Sefydliad Bioleg y Môr Whitney ym Mhrifysgol Fflorida. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys synhwyro a llywio bio-ysbrydoledig mewn amgylcheddau dyfrol.

## YSGRIFAU COFFA

**Dr Bernard Delagneau**
Yn wreiddiol o Ffrainc, penodwyd Dr Delagneau yn Ddarlithydd mewn Marchnata yn yr Adran Economeg Amaethyddol yn 1971, swydd y bu ynddi am 28 mlynedd nes iddo ymddeol yn 1999.

**Rosemary Law (1939-2017)**
Yn wreiddiol o Ogledd Iwerddon, daeth Rosemary i Aberystwyth yn 1964, gan weithio fel ysgrifenyddes ran-amser yn yr Adran Gymdeithaseg a throsglwyddo maes o law i'r Adran Gyfrifiadureg. Yn 1990 fe'i penodwyd i swydd llawn amser fel Swyddog Gweinyddol yn yr Adran Cyfrifiadureg, a bu yn y swydd honno nes iddi ymddeol yn 2001. Bu Rosemary â'i gŵr David yn wardeiniaid Neuaddau Pumlumon a Chaerllion rhwng 1986-1988, ac roedd ei chydymdeimlad a synnwyr cyffredin wrth ddelio â phroblemau myfyrwyr yn rhywbeth hynod werthfawr. Bu Rosemary yn aelod gweithgar o NALGO a'i olynydd UNSAIN am nifer o flynyddoedd ac yn aelod hirsefydlog a brwdfrydig o Glwb Merched y Brifysgol.

**Jacob Thomas Pugh (1938-2017)**
Roedd Jacob yn gyn borthor yn Llandinam a Llanbadarn.

**Professor David Wulstan (1937-2017)**
Roedd yr Athro David Wulstan, Athro Cerdd Emeritws ac Athro er Anrhydedd yn Adran Ieithoedd Modern Prifysgol Aberystwyth, a Chymrawd er Anrhydedd yng Ngholeg San Pedr Rhydychen. Bu'n astudio cerddoriaeth yng Ngholeg Magdalen, Rhydychen, a bu'n Athro Cerddoriaeth yn Ngholeg Prifysgol Cork, cyn cael ei benodi i Gadair Cerdd Gregynog ym Mhrifysgol Aberystwyth ym mis Hydref 1983. Fel ysgolhaig, golygodd ac ail-greodd nifer o weithiau gan gyfansoddwyr o'r cyfnod Tuduraidd megis John Sheppard a Christopher Tye, a chyhoeddodd yn helaeth yn y maes, gan gynnwys dau lyfr llawn. Bu hefyd yn cyfansoddi ar gyfer ffilm a theledu.

### UWCH BENODIADAU



Penodwyd yr **Athro Paul Brewer** yn Bennaeth Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear. Ar hyn o bryd mae e'n Athro Daearyddiaeth Ffisegol ac ymunodd â'r Adran am y tro cyntaf ym 1993. Bydd yn cychwyn ar ei rôl ar 1 Medi.



Penodwyd **Dr David Ceri Jones** yn Bennaeth Hanes a Hanes Cymru. Mae David ar hyn o bryd yn Ddarllenydd yn yr Adran ac yn hanesydd cynnar modern. Bydd yn cychwyn ar ei rôl ar 1 Awst am gyfnod o flwyddyn yn ystod absenoldeb ymchwil yr Athro Martyn Powell.



Penodwyd **Dr Susan Busby** yn Gyfarwyddwr Academaidd y Campws ar ein campws cangen Mauritius (AUM). Ymunodd Susan ag AUM ym mis Medi 2016 fel Darlithydd mewn Busnes a Rheoli. Hi hefyd yw Arweinydd Thema Busnes ym Mauritius.



Ailbenodwyd yr **Athro Neil Glasser**, Cyfarwyddwr yr Athrofa Daearyddiaeth, Hanes, Gwleidyddiaeth a Seicoleg am gyfnod o bedair blynedd arall.



Ailbenodwyd yr **Athro Qiang Shen**, Cyfarwyddwr yr Athrofa Mathemateg, Ffiseg a Chyfrifiadureg am gyfnod o bedair blynedd arall.

### COFFÁU AELODAU STAFF

Cynhaliwyd seremoni plannu coeden goffa yng ngerddi Plas Gogerddan ddydd Gwener 26 Mai i gofio am Dr Sandra Pierre, cydweithiwr a chyfaill mawr ei pharch yn IBERS. Disgleiriai'r haul wrth blannu'r dderwen er cof am Sandra, a chafodd pawb a ddymunai gyfle i ddweud gair. Yn dilyn y deyrnged addas a theimladwy hon cafodd bawb ginio gyda'i gilydd yn y gerddi.

Cafodd aelod arall amlwg o staff IBERS sydd â cholled fawr ar ei ôl, Dr John Corton o'r tîm BEACON, ei goffáu mewn gwasanaeth a gynhaliwyd yn Hen Neuadd yr Hen Goleg, ddydd Sadwrn 3 Mehefin. Cynhaliwyd digwyddiad arall er cof am John gyda'r nos ym mwyty Y Consti ar ben Craig Glais, lle daeth cydweithwyr ynghyd i rannu cerddoriaeth, darlleniadau ac atgofion amdano.

Mae cydweithwyr o IBERS wedi llofnodi llyfrau cydymdeimlad i gofio am John a Sandra.



# Staff a myfyrwyr yn codi arian

## Cyfleoedd i bobl ifainc yn Rio de Janeiro



Mae'r Gymdeithas Seicoleg, un o gymdeithasau myfyrwyr y Brifysgol, wedi bod yn codi arian ar gyfer elusen chwaraeon dros ddatblygu ym Mrasil.

Mae'r elusen, UMRio, yn cefnogi 300 o bobl ifainc yn y Morro do Castro favela, sy'n cael ei effeithio'n fawr gan droseddau a thrais.

Mae UMRio yn ceisio defnyddio rygbi fel offeryn ar gyfer datblygiad cadarnhaol ieuenctid, yn seicolegol ac yn gorfforol, gan ddarparu ar yr un pryd ardal ddiogel ac amgylchfyd i'w galluogi, lle gallant gael, a meithrin, cyfleoedd newydd i ddysgu, datblygu a dilyn dyheadau, a meithrin hyder yn eu cymeriadau eu hunain.

Mae fideos sy'n ymwneud â gwaith y prosiect ar gael yma: http://umrio.org/index.php/videos/

Cododd y Gymdeithas Seicoleg £85 trwy drefnu cwis tafarn yn Undeb y Myfyrwyr.

Mae'r elusen yn gysylltiedig â rhaglen ymchwil barhaus gan Dr Gareth Hall, Uwch-ddarlithydd mewn Seicoleg, sydd wedi bod yn ymchwilio i sut mae digwyddiadau enfawr, chwaraeon a gweithgarwch corfforol, a rygbi yn arbennig, wedi cyfrannu at hwyluso newid cymdeithasol, yn ogystal â datblygiad seicolegol cadarnhaol trwy gymryd rhan mewn ymyraethau chwaraeon o ddatblygiad ieuenctid.

## Adnoddau Dynol yn codi arian ar gyfer polydwnnel newydd

Mi wnaeth pedwar aelod ar ddeg o staff Adnoddau Dynol wynebu her bwyta'n iach noddedig yn gynharach eleni.

Yn ogystal â cholli 83 pwys rhyngddynt, cododd y tîm £370 a ychwanegwyd at rodd o £300 gan yr Undeb Myfyrwyr Cenedlaethol i brynu polydwnnel ar gyfer Gardd Gymunedol Penglais.



O'r chwith i'r dde: Martyn Saycell, Susan Chambers, Sara Jones, Ruth Fowler, Jean Glennie, Bob McIntyre.

## Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr yn Dawnsio dros Fywyd



O'r chwith i'r dde: Barbara Jones, Sarah Thomas, Janet Roland, Nicky Cashman, (James, gŵr Nicky), a Diane Jones

Cododd staff o'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr dros £800 ar gyfer Ymchwil Cancr trwy gymryd rhan yng nghynllun Dawnsio dros Fywyd Peter Kay 2017 yn Coventry ym mis Mawrth.

## Ras dros Fywyd y Gwasanaeth Gyrfaoedd

Cododd staff o Wasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol bron £1,000 i Ymchwil Cancr trwy gymryd rhan yn Ras dros Fywyd Aberystwyth ym mis Mai.



O'r chwith i'r dde: Christina Evans, Lorraine Spencer, Anna McAdam, Jacqui Ho, Joanne Hiatt, Eloise Hiatt, ac Iolo'r babi yn y tu blaen.

# Arddangosfeydd yr Ysgol Gelf

Mae Oriel yr Ysgol Gelf ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener, 10yb – 5yp. Mynediad yn rhad ac am ddim.

### *At the Margins*, 7 Awst - 1 Medi 2017

**Cynllun Rhyngwladol Cyfnewid Printiau rhwng Cyngor Printiau Aotearoa, Seland Newydd a Gwneuthurwyr Printiau Aberystwyth**

Gwneuthurwyr Printiau yn myfyrio ar y ffordd y mae safleoedd "ymylol" ynysforoedd Prydain a Seland Newydd wedi dylanwadu ar y ffordd y mae diwylliant, cymdeithas, hanes cofiedig, a thirwedd yn cael eu portreadu a sut mae hyn wedi newid yn yr 21ain ganrif.



*Faith Flower* (Cymru), 'Marginal Adjustments 2', ysgythriad



Julia Ellery (Seland Newydd), 'Hei Tiki Lookout', mezzotint

### Arddangosfa'r Uwchraddedigion, 18-28 Medi 2017



Jess Raby, Delwedd lonydd o fideo Marwolaeth Babi Melyn (*Death of Yellow Poppy*)

# Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

## tan 2 Medi



Terence Wilde, '*Embodiments*'

### *Radical Craft*

Gweithiau celf gan artistiaid sy'n adnabyddus yn hanesyddol am eu cysylltiad â Chelf Allanwyr ac artistiaid hunanddysgedig cyfoes sy'n gweld eu hunain yn wynebu rhwystrau yn y byd celf am resymau yn cynnwys iechyd, anabledd, amgylchiadau cymdeithasol neu unigedd;  dewiswyd 21 ohonynt o geisiadau agored.

Yn ôl Alice Kettle, yr artist tecstiliau sy'n Athro Celfyddyd Tecstiliau yn Ysgol Gelf Manceinion, mae'r arddangosfa'n "cyfathrebu'r ddeinameg o fyw a chreu, o ddefnyddio potensial trawsffurfiol crefft i gyrraedd bydoedd gweledigaethol eraill ... daw crefft yn broses o wrthsefyll a modd o gyfaddasu."

